

## Cyfrinachedd

Mae ein holl gwrselwyr wedi cael hyfforddiant proffesiynol. Mae'r Gwasanaeth yn aelod sefydliadol o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) ac felly'n gweithio o fewn fframwaith moesegol y corff hwnnw ar arferion da mewn cwnsela a seicotherapi. Ni fydd staff yn y Gwasanaeth Cwnsela yn rhoi gwybodaeth bersonol am gleientiaid (yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb) i unrhyw un tu allan i'r gwasanaeth ac eithrio yn y sefyllfaoedd a ganlyn.

- Lle mae'r cwnselydd wedi cael eich caniatâd penodol i ddatgelu gwybodaeth, neu
- Lle bo'r cwnselydd yn credu bod perygl o niwed difrifol i'r myfyriwr sy'n gleient neu i drydydd parti, neu
- Lle byddai'r cwnselydd yn atebol i achos llys sifil neu droseddol pe na bai'r wybodaeth yn cael ei datgelu.

O dan amgylchiadau felly ni fyddai cwnselwyr fel rheol yn torri cyfrinachedd heb gydsyniad y cleient, os yn bosibl, a dim ond i'r graddau y byddai'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau. Anaml iawn y bydd amgylchiadau felly'n codi.

**Nodir os gwelwch yn dda – yn ystod cyfnod y pandemig Cofid19, os bydd ichi bresennoli apwyntiad/au wyneb yn wyneb - efallai bydd gofyn arnom i roi eich manylion cyswllt i'r system ar gyfer 'Track, Trace a Protect'. Byddwn yn gwneud pob dim posibil i beidio â'ch cysylltu chi a'r Gwasanaeth fel cleient.**

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela'n rhoi cyfle i feddwl a siarad yn gyfrinachol. Ond gall fod angen i gwrselwyr gysylltu â chydweithwyr yn y gwasanaeth ynglŷn â'n gwaith, ac mae'n ofynnol yn broffesiynol bod ein gwaith yn cael ei oruchwylio gan ymgynghorydd tu allan i'r gwasanaeth a'r brifysgol. Wrth gael ein goruchwylio NID ydym yn datgelu unrhyw fanylion a fyddai'n dangos pwy yw'r cleientiaid.

Mae cyfrinachedd yr un mor bwysig yng ngwaith y staff gweinyddu a staff y dderbynfa ag y mae i'r cwnselwyr. Ni roddir unrhyw wybodaeth fyddai'n dangos pwy yw'r cleientiaid i unrhyw un tu allan i'r Gwasanaeth Cwnsela oni bai y gwnaed cytundeb clir rhwng y cleient a'r gwasanaeth i rannu gwybodaeth.

O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018, mae gennych rai hawliau i weld y cofnodion a gedwir amdanoch. Os hoffech weld eich cofnodion cwnsela bydd eich cwnselydd yn rhoi gwybodaeth i chi am bolisi'r brifysgol ynglŷn â mynediad at gofnodion.

Caiff eich manylion personol (manylion cyswllt, data demograffig ac ati) eu cadw ar gronfa ddata na ellir mynd iddi heb gyfrinair ar rith-weinydd diogel yn y brifysgol. Dim ond staff y Gwasanaeth Cwnsela gaiff weld y cofnodion.

Defnyddir eich data personol yn unig i hwyluso prosesau gweinyddol, fel cysylltu â chi i drefnu apwyntiad ac ati, a'i defnyddio ar y cyd ac yn ddienw i gynhyrchu ystadegau am broffil cleientiaid y Gwasanaeth Cwnsela.

Mae gan nifer cyfyngedig o staff gwasanaethau TG fynediad i'r gweinydd lle cedwir y gronfa ddata ond unig bwrpas hynny yw gweinyddu'r system. Mae'r gwasanaeth TG yn sicrhau bod y gweinydd yn cael ei gynnal yn unol ag arferion gorau o ran diogelwch.

Rydym hefyd yn cadw nodiadau am ein gwaith cwnsela gyda chleientiaid ar y gronfa ddata a ddiogelir gyda chyfrinair, ac unig bwrpas hynny yw helpu cwnselwyr gyda'u gwaith. DIM OND cwnselwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth sy'n gallu gweld y nodiadau hyn ac nid ydynt ar gael i staff eraill. Rydym yn cadw cofnodion yn unol â chynghor Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain, sef am chwe blynedd. Ar ôl y cyfnod cadw a

argymhellir caiff y cofnodion eu dinistrio'n gyfrinachol. Mae'r un peth yn berthnasol i gofnodion papur rydym yn eu cadw'n ddiogel yn y Gwasanaeth Cwmsela.

Mae gan unrhyw gleient i'r Gwasanaeth, neu unrhyw un sydd wedi bod yn gleient yn y gorffennol, yr hawl i ofyn am gael gweld eu cofnodion. Mae gennym drefniadau yn eu lle i ddelio â cheisiadau o'r fath. Bydd angen i chi wneud cais ffurfiol; gwneir hyn trwy Bennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio'r Brifysgol. Bydd angen i chi ofyn am Ffurflen Gais Mynediad at Ddata Personol (Cais Mynediad gan Wrthrych y Data).

Mae ail-ddynodi rhyw yn nodwedd wedi ei diogelu o dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Gall unrhyw wybodaeth a gawn gennych chi ynghylch statws rhyw a hanes trosglwyddo gael ei rhannu'n fewnol yn y gwasanaeth cwmsela. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth o'r fath i bartïon allanol heb eich caniatâd penodol.

Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gael eich cydsyniad i gadw cofnodion, a byddwn yn gofyn i chi lofnodi eich bod yn cytuno â'n harferion wrth gofrestru gyda ni.

Medi 2020.